GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Tueddiadau mewn atal, diagnosio a thrin HIV yng Nghymru

Adroddiad Blynyddol 2026
(Data hyd at ddiwedd 2025)

Gwybodaeth am Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant ac i leihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gyda'n partneriaid a'n cymunedau.

Y Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ
www.icc.gig.cymru/

Cydnabyddiaethau

Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at systemau data a gwyliadwriaeth ar gyfer HIV yng Nghymru.

Adroddiad wedi'i baratoi gan grŵp pwnc arbenigol BBV, STI, TB ac Anghydraddoldebau, y Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC), Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyfeiriad a Awgrymir: Is-adran Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru (2026). Tueddiadau mewn atal, diagnosio a thrin HIV yng Nghymru, Adroddiad Blynyddol 2026 (data hyd at ddiwedd 2025). Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynnwys

Cynnwys 3

1 Crynodeb gweithredol 6

2 Gwaith Ataliol 8

Proffylacsis Cyn-gysylltiad ar gyfer HIV 8

3 Profi ar gyfer HIV 10

3.1 Tueddiadau mewn profi ar gyfer HIV yng Nghymru 10

3.2 Profi am HIV yn ôl grŵp oedran 10

3.3 Cyfraddau profi am HIV yn ôl bwrdd iechyd preswyl 11

4 Diagnosis 12

4.1 Diagnosis HIV newydd – cymhariaeth lefel gwlad 12

4.2 Proffil demograffig achosion newydd o HIV yng Nghymru 13

4.2.1 Proffiliau oedran a rhywedd 13

4.2.2 Ethnigrwydd a gwlad/rhanbarth genedigol 15

4.2.3 Bwrdd iechyd preswyl 17

4.2.4 Ffynhonnell fwyaf tebygol amlygiad a adroddir gan y claf 18

4.3 Diagnosisau hwyr o achosion newydd o HIV 18

4.4 Pob diagnosis HIV – cymhariaeth ar lefel gwlad 19

4.5 HIV ymhlith Menywod Beichiog 20

5 Triniaeth a Gofal 21

5.1 Pobl sy'n byw gyda HIV – cymhariaeth lefel gwlad 21

5.2 Pobl sy'n byw gyda HIV - yn ôl demograffeg 21

5.3 Triniaeth HIV a llwyth feirysol 23

6 Marwolaethau 24

7 Ffynonellau data 25

Tablau

Tabl 1: Nifer yr unigolion yng Nghymru a gafodd PrEP ar bresgripsiwn yn ôl presenoldeb mewn clinig Bwrdd Iechyd a blwyddyn, 2021-2025 9

Tabl 2: Cyfanswm y profion HIV Ag/Ab a gynhaliwyd mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol ac eilaidd a TAP, unigolion a brofwyd, ac adweithedd a gofnodwyd gan labordai Cymru, yn ôl blwyddyn, 2021-2025 a nifer 10

Tabl 3: Nifer yr unigolion a brofwyd a'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth (n(cyfradd)) ar gyfer HIV Ag/Ab mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol ac eilaidd, a'r gwasanaeth Profi a Phostio yn ôl bwrdd iechyd preswyl a blwyddyn 11

Tabl 4: Nifer a chyfraddau y diagnosisau HIV newydd a adroddwyd yn y DU, yn ôl gwlad a blwyddyn 2021-2025 12

Tabl 5: Amlder oedran, rhywedd (heb gynnwys pobl anneuaidd) ac ethnigrwydd* ar gyfer trigolion Cymru sydd wedi cael diagnosis HIV newydd yn y DU, 2021-2025 13

Tabl 6: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth (n(cyfradd)) o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl rhywedd a blwyddyn 2021-2025 14

Tabl 7: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl grŵp oedran a blwyddyn 2021-2025 15
Tabl 8: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl grŵp ethnigrwydd* a blwyddyn 2021-2025 15
Tabl 9: Nifer y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl rhanbarth geni* a blwyddyn 16
Tabl 10: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth (n(cyfradd)) o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl bwrdd iechyd preswyl a blwyddyn 2021-2025 17
Tabl 11: Nifer y diagnosisau HIV newydd yn y DU ymhlith trigolion yng Nghymru, yn ôl llwybr amlygiad a hunan-adroddwyd* a blwyddyn 2021-2025 18
Tabl 12: Nifer a chyfran (%) y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru gyda chyfrif CD4 wedi'i adrodd o fewn 91 diwrnod a diagnosisau hwyr yng Nghymru pan adroddwyd am gyfrif CD4, yn ôl blwyddyn 2021-2025 19
Tabl 13: Pob diagnosis HIV newydd a adroddwyd yn y DU a'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl gwlad a blwyddyn 20
Tabl 14: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n byw gyda HIV yn y DU, yn ôl gwlad a blwyddyn, 2021-2025 21
Tabl 15: Proffil demograffig y rhai sy'n byw gyda HIV ac sy'n cael triniaeth a gofal yng Nghymru, yn ôl blwyddyn, 2021-2025 22
Tabl 16: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o bobloledd (n(gyfradd)) o bobl sy'n byw gyda HIV yn ôl bwrdd iechyd preswyl a blwyddyn, 2021-2025 23
Table 17: Nifer a chyfran (%) yr unigolion sy'n cael ART, yn nodi llwyth feirysol ac sydd â llwyth feirysol anghanfyddadwy, yn ôl blwyddyn 2021-2025 24
Table 18: Nifer y marwolaethau a gofnodwyd ymhlith y rhai a oedd yn byw gyda HIV yng Nghymru, yn ôl blwyddyn, 2021-2025 24

Ffigurau

Ffigur 1: Nifer yr unigolion a gafodd PrEP ar bresgripsiwn mewn clinigau iechyd rhywiol, yn ôl blwyddyn 2021-2025, Cymru 8
Ffigur 2: Nifer yr unigolion a gafodd PrEP ar bresgripsiwn mewn clinigau iechyd rhywiol, yn ôl grŵp oedran, 2021-2025 9
Ffigur 3: Nifer yr unigolion a brofwyd am HIV Ag/Ab mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol ac eilaidd a TAP, yn ôl grŵp oedran a blwyddyn 11
Ffigur 4: Dosbarthiad oedran-rhywedd o'r diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, 2025 14
Ffigur 5: Cyfran y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl grŵp ethnigrwydd* a blwyddyn 2021-2025 16
Ffigur 6: Cyfran y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl rhanbarth genedigol a blwyddyn 17
Ffigur 7: Cyfradd diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd cyfunol 2021-2025 18
Ffigur 8: Cyfradd pob diagnosis HIV fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl gwlad yn y DU a blwyddyn 2021-2025 20

Rhestr o'r prif fyrfoddau

Gwrth-HIV	Gwrthgorff Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol	**PCR**	Adwaith Cadwynol Polymeras
ART	Therapi gwrth-retrofeirysol	**POCT**	Prawf yn y man lle y rhoddir gofal
BBV	Feirws a Gludir yn y Gwaed	**SWS**	Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru
HIV	Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol		
LIMS	System Rheoli Gwybodaeth Labordy	**VL**	Llwyth Feirysol
GBMSM	Dynion Hoyw a Deurywiol sy'n cael Rhyw gyda Dynion	**WHO**	Sefydliad Iechyd y Byd

Diffiniadau[1]

Term	Diffiniad
Diagnosis HIV newydd	Pobl sy'n byw yng Nghymru, sy'n cael eu diagnosis HIV cyntaf yng Nghymru neu Loegr, heb unrhyw dystiolaeth o ddiagnosis blaenorol yn rhywle arall. Mae data ar gael o 2021 ymlaen. Mae diagnosis HIV unigolyn yn cael ei aseinio i'w leoliad preswylio waeth ble y digwyddodd y diagnosis.
Pobl a gafodd ddiagnosis HIV cyn parhau â gofal yng Nghymru	Pobl a oedd wedi cael diagnosis HIV y tu allan i'r DU yn flaenorol, ond sy'n parhau i gael gofal HIV yng Nghymru. Mae data ar gael o 2021 ymlaen.
Pob diagnosis HIV	Mae pob diagnosis HIV yn cyfeirio at ddiagnosis HIV newydd a phobl sydd wedi cael diagnosis HIV cyn cael gofal parhaus yng Nghymru. Mae data ar gael o 2021 ymlaen.
Diagnosis hwyr	Diffinnir hyn fel cael cyfrif CD4 o dan 350 o gelloedd fesul milimetr ciwbig o fewn 91 diwrnod ar ôl y diagnosis HIV cyntaf yn y DU a dim tystiolaeth o serodrawsnewid diweddar. Y dystiolaeth yw naill ai prawf HIV negyddol o fewn 24 mis ar ôl y diagnosis neu ganlyniad Algorithm Profi Haint Diweddar (RITA) sy'n dynodi haint diweddar. Mae pobl sydd â chyfrifon CD4 ar goll wedi'u heithrio o gyfrifiad diagnosis hwyr. Mae plant 14 oed ac iau adeg y diagnosis HIV wedi'u heithrio o gyfrifiad diagnosis hwyr.

Pwrpas

Mae Cynllun Gweithredu HIV i Gymru 2023-26 Llywodraeth Cymru[2] yn nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu: atal, profi, gofal clinigol, byw'n dda gyda HIV a mynd i'r afael â stigma sy'n gysylltiedig â HIV. Yn ogystal, mae wedi ymrwymo i gyflawni targedau UNAIDS 95:95:95 ar gyfer HIV[3].

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am epidemioleg, atal a rheoli HIV yng Nghymru hyd at ddiwedd 2025. Mae'r adroddiad wedi'i anelu at wneuthurwyr polisi, clinigwyr a chynllunwyr gwasanaethau iechyd, comisiynwyr, asiantaethau cyfiawnder troseddol, asiantaethau'r trydydd sector a'r byd academaidd.

1 UKHSA. Tablau data blynyddol HIV. Atodiad – Newidiadau iaith yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid. 2025. Ar gael yn: HIV testing, PrEP, new HIV diagnoses and care outcomes for people accessing HIV services: Adroddiad 2025 - GOV.UK
2 Llywodraeth Cymru. Dileu HIV, gwella ansawdd bywyd a mynd i'r afael â stigma sy'n gysylltiedig â'r feirws – cynllun gweithredu ar gyfer 2023-26. Ar gael yn: Cynllun Gweithredu HIV i Gymru
3 UNAIDS. Ar gael yn: Deall mesurau cynnydd tuag at dargedau profi, trin ac atal feirysau HIV 95–95–95

1 Crynodeb gweithredol

Atal

- Er 2021, mae mwy na 6,391 o bobl wedi cael meddyginiaeth Proffylacsis Cyn-gysylltiad (PrEP) ar bresgripsiwn yng Nghymru. Mae nifer yr unigolion sy'n cael PrEP wedi cynyddu'n flynyddol rhwng 2021 a 2024, sy'n cyfateb i gynnydd o 17% yn y nifer sy'n cael y feddyginiaeth
- Mae PrEP yn parhau i gael ei ragnodi amlaf i wrywod (98%) a'r rhai yn y categori oedran 25-34 oed (35%)
- Mae'r cynnydd yn nifer y menywod sy'n cael diagnosis HIV newydd yn dangos bod angen gwella ymwybyddiaeth a chodi nifer y rhai sy'n cael y feddyginiaeth o blith y menywod sydd mewn perygl o gael eu heintio yng Nghymru. Mae hefyd angen parhau â'r ddarpariaeth PrEP ar gyfer dynion, a chynyddu a chadw'r ddarpariaeth PrEP ar eu cyfer

Profi

- Gan gyfuno data profion labordy a phrofion yn y cartref, profwyd cyfanswm o 132,449 o unigolion am HIV yn 2025, cynnydd o 4.3% ar 2024 a'r nifer uchaf ers 2021
- Roedd y profion yn y cartref a wnaed drwy'r Cynllun Profi a Phostio yn cyfrif am tua 17% o'r unigolion a brofwyd yn 2025, y gyfran isaf ers i'r cynllun gael ei gyflwyno yn 2021
- O'r rhai a brofwyd, roedd 56% yn fenywod a 42% yn wrywod, <1% yn bobl anneuaidd a <2% heb gofnodi.
- Cafodd y rhan fwyaf o'r profion HIV eu gwneud ymhlith y rhai yn y grŵp oedran 25–34 oed (33%)

Diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru

- Roedd 82 o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru yn 2025. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 4% o'i gymharu â 2024.
- Mae cyfradd y diagnosisau HIV newydd fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru wedi cynyddu ychydig ers 2024 (o 2.5 i 2.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth)
- Roedd mwyafrif y diagnosisau HIV newydd mewn dynion (65%). Fodd bynnag, mae'r gymhareb gwrywod a benywod o ran diagnosisau HIV newydd wedi gostwng o 2.5:1 yn 2021 i 1.9:1 yn 2025.
- Roedd y nifer uchaf o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith y rhai rhwng 35 a 49 oed, a'r rheiny o ethnigrwydd Gwyn
- Rhyw rhwng dynion a menywod oedd y llwybr amlygiad a adroddwyd amlaf (39%), ac yna rhyw rhwng dynion (29%)

- Lle'r oedd data CD4[4] ar gael (83% o achosion), roedd tystiolaeth o ddiagnosis hwyr yn bresennol ar gyfer 62% o'r diagnosisau newydd, yr uchaf ar gyfer y cyfnod pum mlynedd

Pob diagnosis HIV

- Yn 2025, roedd cyfanswm pob diagnosis HIV yng Nghymru yn 115, a oedd yn cynnwys 82 o ddiagnosisau HIV newydd, a 33 o bobl a gafodd ddiagnosis o HIV cyn cael gofal parhaus yng Nghymru
- Mae'r 115 o ddiagnosisau HIV yn 2025 yn ostyngiad o 16.7% o'r 138 o achosion a gofnodwyd yn 2024
- Mae cyfradd diagnosis HIV Cymru yn 2025 o 3.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn parhau i fod yn is na'r gyfradd yn Lloegr a'r Alban (7.0 a 4.0 yn y drefn honno). Nid oes data cyfatebol ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon ar gyfer y cyfnod hwn

Triniaeth a Gofal

- Roedd cyfradd gyffredinrwydd unigolion sy'n byw gyda HIV yng Nghymru yn 79.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2025, a oedd yn is na'r gyfradd yn Lloegr a'r Alban (180.4 a 104.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno).
- Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion a oedd yn cael gofal yn wrywod (73%); rhwng 50 a 64 oed; ac o ethnigrwydd Gwyn
- Dywedodd 2,522 (99%) o'r unigolion eu bod wedi cael therapi gwrth-retrofeirysol (ART), a oedd yn cyrraedd targed UNAIDS o 95%
- O blith y rhai sy'n cael ART, a phan adroddir am lwyth feirysol, adroddodd 97% am lwyth feirysol o 200 copi/ml neu'n is sy'n dynodi ataliad feirysol, sy'n cyrraedd targed UNAIDS o 95%

Marwolaethau

- Cofnodwyd 49 o farwolaethau mewn pobl a oedd yn byw gyda HIV, o'u cymharu â 21 o farwolaethau yn 2024
- Yn 2025, digwyddodd 19 marwolaeth (39%) o fewn 5 mlynedd o roi diagnosis, ac roedd y rhan fwyaf o'r marwolaethau ymhlith y rhai dros 65 oed
- Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ymchwilio i dueddiadau yn achosion sylfaenol marwolaethau a chyfraniad haint HIV tuag atynt

[4]Mae celloedd CD4 yn fath o gelloedd gwaed gwyn sy'n cael eu targedu'n benodol gan HIV. Mewn diagnosisau HIV newydd, mae cyfrif CD4 o lai na 350 o gelloedd/mm3 yn dynodi diagnosis hwyr ac mae cyfrif o lai na 250 o gelloedd/mm3 yn dynodi diagnosis hwyr iawn.


2 Gwaith Ataliol

Proffylacsis Cyn-gysylltiad ar gyfer HIV

Cafodd proffylacsis cyn-gysylltiad (PrEP), sef meddyginiaeth y dangoswyd ei bod yn lleihau'r risg o gael HIV trwy ryw >99% pan gaiff ei chymryd fel y'i rhagnodir[5], ei gyflwyno yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymryd PrEP, oherwydd hygyrchedd ehangach, yn cyd-daro â'r gostyngiad mewn achosion newydd o HIV yn y DU, yn enwedig ymhlith dynion Hoyw a Deurywiol sy'n cael Rhyw gyda Dynion (GBMSM)[6].

NODYN PWYSIG: mae problemau data systematig parhaus o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi arwain at dan-adrodd data clinigol ar gyfer 2025. Dylid bod yn ofalus iawn wrth ddehongli tueddiadau sy'n cynnwys data o 2025.

Ers 2021, mae o leiaf 6,391 o unigolion wedi cael PrEP ar bresgripsiwn drwy glinigau iechyd rhywiol yng Nghymru, ac mae'r un unigolion wedi derbyn presgripsiynau dros nifer o flynyddoedd. Mae nifer y bobl sy'n cael PrEP wedi codi bob blwyddyn rhwng 2021 a 2025, fel y dangosir yn Ffigur 1, a chafodd 2,602 o unigolion bresgripsiwn yn 2024, sef cynnydd o 16.8% ers 2021.



Ffynhonnell: SWS, 2026


Ffigur 1: Nifer yr unigolion a gafodd PrEP ar bresgripsiwn mewn clinigau iechyd rhywiol, yn ôl blwyddyn 2021-2025, Cymru

Nodiadau: Mae data ar gyfer PrEP yn anghyflawn oherwydd materion yn ymwneud ag ansawdd data. Mae'r ardal dywyll yn cyfeirio at ddata anghyflawn ar gyfer 2025 a gall fod yn destun newid mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol.
Arweiniodd mapio cod ychwanegol yn 2026 at gynnydd mewn presgripsiynau PrEP o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ni ddylid cymharu data yn yr adroddiad hwn ag adroddiadau blaenorol.

At ei gilydd, roedd mwyafrif yr unigolion a gafodd PrEP mewn clinigau iechyd rhywiol ers 2021 yn wrywod (98%), wedi hunan-adrodd fel GBMSM (80%), ac yn y grŵp oedran 25–34

[5] CDC (2024) HIV Basics: Prep Effectiveness. https://www.cdc.gov/hiv/prevention/prep.html (Saesneg yn unig)
[6] Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (2023) HIV: Tablau Data Blynyddol. https://www.gov.uk/government/statistics/hiv-annual-data-tables (Saesneg yn unig)

oed (35%) (Ffigur 2). Mae canllawiau PrEP 2025/27 yn dangos bod PrEP yn addas ar gyfer: GBMSM; dynion a menywod Du Affricanaidd; menywod trawsryweddol; mudwyr diweddar; pobl sy'n chwistrellu cyffuriau; pobl sy'n adrodd am waith rhyw neu ryw trafodaethol.



Ffynhonnell: SWS, 2026

Ffigur 2: Nifer yr unigolion a gafodd PrEP ar bresgripsiwn mewn clinigau iechyd rhywiol, yn ôl grŵp oedran, 2021-2025

Nodiadau: Mae data ar gyfer PrEP yn anghyflawn oherwydd materion yn ymwneud ag ansawdd data. Mae'r ardal dywyll yn cyfeirio at ddata anghyflawn ar gyfer 2025 a gall fod yn destun newid mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a ddarparodd yn gyson y gyfran uchaf o ddarpariaeth PrEP hyd at 2024, a oedd yn cyfrif am 42% yn 2024 (Tabl 1).

Tabl 1: Nifer yr unigolion yng Nghymru a gafodd PrEP ar bresgripsiwn yn ôl presenoldeb mewn clinig Bwrdd Iechyd a blwyddyn, 2021-2025

Bwrdd Iechyd	2021	2022	2023	2024	2025
Aneurin Bevan	264.	358	379	386	421
Betsi Cadwaladr	263	361	429	446	497
Caerdydd a'r Fro	1,278	952	979	1,101	350
Cwm Taf Morgannwg	75	107	97	130	129
Hywel Dda	68	112	82	23	25
Powys*	-	-	-	-	-
Bae Abertawe	279	388	462	516	530
Cyfanswm	2,227	2,278	2,428	2,602	1,952

Ffynhonnell: SWS, 2025

*Nid oes clinigau iechyd rhywiol sefydlog ym Mhowys

Nodiadau: Mae data ar gyfer PrEP yn anghyflawn oherwydd materion yn ymwneud ag ansawdd data. Mae'r ardal dywyll yn cyfeirio at ddata anghyflawn ar gyfer 2025 a gall fod yn destun newid mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol.
Arweiniodd mapio cod ychwanegol yn 2026 at gynnydd mewn presgripsiynau PrEP o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ni ddylid cymharu data yn yr adroddiad hwn ag adroddiadau blaenorol.

[7] Canllawiau Cymdeithas Iechyd Rhywiol a HIV/Cymdeithas HIV Prydain ar ddefnyddio proffylacsis cyn-gysylltiad (PrEP) HIV 2025. Ar gael yn: 2025-PrEP-guidelines.pdf

3 Profi ar gyfer HIV

3.1 Tueddiadau mewn profi ar gyfer HIV yng Nghymru

Mae nifer yr unigolion sy'n cael prawf am HIV mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol neu eilaidd neu drwy'r Cynllun Profi a Phostio[8] (TAP) yn parhau i gynyddu ac roedd cyfanswm yr unigolion a gafodd y prawf yn 2025 yn 132,449, cynnydd o 4.3% ar y flwyddyn flaenorol. Yn 2025, profwyd tua 17% o unigolion drwy'r Cynllun Profi a Phostio, y gyfran leiaf ers ei gyflwyno yn 2021 (gwelerFfynonellau data am ragor o wybodaeth).

O'r 132,449 o unigolion a brofwyd yn 2025, roedd 56% yn fenywod, 42% yn wrywod, 0.2% yn bobl anneuaidd; nid oedd yr 1.8% a oedd yn weddill wedi'u cofnodi.

Cafodd 360 (0.27%) o unigolion brawf HIV Ag/Ab adweithiol yn 2025 (Tabl 2), sy'n dynodi ail--brofi'r unigolion a oedd wedi cael diagnosis HIV cyn hynny. Roedd 82 o ddiagnosisau HIV newydd yng Nghymru yn 2025, sy'n cynrychioli cyfradd o 0.06% o'r unigolion a brofwyd.

Tabl 2: Cyfanswm y profion HIV Ag/Ab a gynhaliwyd mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol ac eilaidd a TAP, unigolion a brofwyd, ac adweithedd a gofnodwyd gan labordai Cymru, yn ôl blwyddyn, 2021-2025 a nifer

Blwyddyn	Cyfanswm profion HIV Ag/Ab	Unigolion a brofwyd	Unigolion â phrawf adweithiol	Cyfran adweithiol %	Nifer y diagnosisau HIV newydd
2021	110,410	92,766	230	0.25	66
2022	126,937	105,996	322	0.30	105
2023	141,136	118,267	353	0.30	95
2024	153,348	126,990	389	0.31	79
2025	160,802	132,449	360	0.27	82


Ffynhonnell: LIMS a TAP, 2026

Nodiadau: Arweiniodd newidiadau mewn prosesu data labordai yn 2026 at ostyngiad yn nifer y profion HIV a gofnodwyd ar draws pob blwyddyn. Roedd adroddiadau blaenorol yn cynnwys unigolion a oedd yn adweithiol i sawl prawf HIV. Mae cynnwys HIV Ag/Ab yn unig wedi arwain at ostyngiad ar draws pob blwyddyn. Ni ddylid cymharu data yn yr adroddiad hwn ag adroddiadau blaenorol.

3.2 Profi am HIV yn ôl grŵp oedran

Roedd y nifer uchaf o unigolion a brofwyd yn y grŵp oedran 25-34 (Ffigur 3), sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol .

[8] Pecyn Profi STI Cymru - Iechyd Rhywiol Cymru



Ffynhonnell: LIMS a TAP, 2026

Ffigur 3: Nifer yr unigolion a brofwyd am HIV Ag/Ab mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol ac eilaidd a TAP, yn ôl grŵp oedran a blwyddyn

3.3 Cyfraddau profi am HIV yn ôl bwrdd iechyd preswyl

Dangosir nifer yr unigolion a brofwyd ym mhob bwrdd iechyd preswyl yn Nhabl 3, ac mae'r gyfradd brofi uchaf o 5,335.5 fesul 100,000 o'r boblogaeth ymhlith y rhai sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe .

Tabl 3: Nifer yr unigolion a brofwyd a'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth (n(cyfradd)) ar gyfer HIV Ag/Ab mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol ac eilaidd, a'r gwasanaeth Profi a Phostio yn ôl bwrdd iechyd preswyl a blwyddyn

Bwrdd iechyd preswyl	2021	2022	2023	2024	2025
Aneurin Bevan	14,556 **(2,474.3)**	17,364 **(2,934.3)**	20,763 **(3,477.2)**	21,712 **(3,615.8)**	23,326 **(3,877.6)**
Betsi Cadwaladr	17,081 **(2,486.2)**	20,293 **(2,944.8)**	24,902 **(3,590.1)**	26,149 **(3,758.6)**	27,388 **(3,937.9)**
Caerdydd a'r Fro	22,065 **(4,481.9)**	26,641 **(5,294.4)**	26,968 **(5,245.2)**	29,977 **(5,794.5)**	27,396 **(5,300.3)**
Cwm Taf Morgannwg	11,161 **(2,524.2)**	13,480 **(3,034.4)**	14,820 **(3,315.1)**	16,438 **(3,672.5)**	17,846 **(3,998.1)**
Hywel Dda	7,585 **(1,983.1)**	9,488 **(2,460.3)**	10,264 **(2,644.9)**	10,736 **(2,761.7)**	11,623 **(2,991.1)**
Powys	1,096 **(820.8)**	1,332 **(995.1)**	1,450 **(1,077.7)**	1,926 **(1,428.2)**	1,807 **(1,340.1)**
Bae Abertawe	12,621 **(3,322.8)**	15,325 **(3,981.5)**	18,749 **(4,800.8)**	19,504 **(4,960.1)**	20,886 **(5,335.5)**

Ffynhonnell: LIMS a TAP, 2026

Nodiadau: Nid yw'r tabl yn cynnwys y mannau pan nad yw'r bwrdd iechyd preswyl yn hysbys

4 Diagnosis

O 1 Ionawr 2024 ymlaen, mae clinigwyr iechyd rhywiol yn cyflwyno hysbysiadau am ddiagnosisau HIV newydd yng Nghymru i Iechyd Cyhoeddus Cymru fel mater o drefn drwy'r e-ffurflen HIV. Mae cyflwyno'r broses e-ffurflen wedi golygu bod mwy o hyder yn nata HIV Cymru. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli data cyhoeddedig ynghylch diagnosis HIV newydd mewn blynyddoedd cynharach.

4.1 Diagnosis HIV newydd – cymhariaeth lefel gwlad

Lle nad oes gan unigolion dystiolaeth o ddiagnosis HIV blaenorol, cânt eu cofnodi fel diagnosis newydd yn y DU[9]. Mae cyfraddau diagnosis newydd y DU yn darparu tystiolaeth o drosglwyddo o fewn y wlad ac felly maent yn fesur pwysig ar gyfer dangos tystiolaeth o weithredu tuag at gyflawni targedau dileu UNAIDS[10].

Cynyddodd nifer yr achosion newydd o HIV yng Nghymru ychydig i 2.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2025, o'i gymharu â 2.5 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2024. Mae nifer yr achosion o HIV yng Nghymru yn parhau i fod yn is na'r gyfradd yn Lloegr ond mae'n uwch na'r hyn a gofnodwyd yn yr Alban, tuedd sy'n gyson mewn blynyddoedd blaenorol ac eithrio 2024. Nid yw Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno data ers 2022. Dangosir cymhariaeth fesul gwlad o'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth o ddiagnosis HIV newydd yn Nhabl 4.

Tabl 4: Nifer a chyfraddau y diagnosisau HIV newydd a adroddwyd yn y DU, yn ôl gwlad a blwyddyn 2021-2025

	2021		2022		2023		2024		2025	
Gwlad/Rhanbarth	Nifer y diagnosisau HIV newydd yn y DU	Cyfradd y diagnosisau HIV newydd yn y DU fesul 100,000	Nifer y diagnosisau HIV newydd yn y DU	Cyfradd y diagnosisau HIV newydd yn y DU fesul 100,000	Nifer y diagnosisau HIV newydd yn y DU	Cyfradd y diagnosisau HIV newydd yn y DU fesul 100,000	Nifer y diagnosisau HIV newydd yn y DU	Cyfradd y diagnosisau HIV newydd yn y DU fesul 100,000	Nifer y diagnosisau HIV newydd yn y DU	Cyfradd y diagnosisau HIV newydd yn y DU fesul 100,000
Lloegr	2,233	3.9	2,418	4.2	2,745	4.7	2,789	4.8	2,604	4.4
Gogledd Iwerddon	62	3.3	55	2.9	-		-		-	
Yr Alban	96	1.8	112	2.1	116	2.1	171	3.1	125	2.3
Cymru	66	2.1	105	3.4	95	3.0	79	2.5	82	2.6
Cyfanswm	2,457	3.7	2,690	4.0	2,956	4.3	3,039	4.4	2,811	4.2

Ffynhonnell: UKHSA a StatsCymru, 2025

Nodiadau: Caiff data ledled y DU eu prosesu'n flynyddol am gyfnod o 10 mlynedd. Gall hyn arwain at newidiadau bach mewn niferoedd a chyfraddau ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Ni ddylid cymharu data yn yr adroddiad hwn ag adroddiadau blaenorol.

[9] Mae nodi achos fel diagnosis newydd yn y DU yn ddibynnol ar gyflwyno hanes profi HIV cyflawn i Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) ar y ffurflen adrodd HIV clinigol. Mae'n bosibl bod rhagdybiaethau wedi'u gwneud pan fo data ar goll.

[10] Targedau Arqymhelliedig UNAIDS ar qyfer HIV ar qyfer 2030 | UNAIDS

4.2 Proffil demograffig achosion newydd o HIV yng Nghymru

4.2.1 Proffiliau oedran a rhywedd

Yn 2025, roedd dynion yn cyfrif am 65% o'r achosion newydd o HIV, y gyfran isaf mewn blynyddoedd diweddar. Mae'r gymhareb dynion i fenywod o achosion newydd o HIV yng Nghymru wedi symud o 2.5:1 yn 2021 i 1.9:1 yn 2025.

Roedd y rhan fwyaf o'r achosion newydd o HIV ymhlith y rhai rhwng 35 a 49 oed ac ymhlith y rhai o ethnigrwydd Gwyn (gweler Tabl 5).


Tabl 5: Amlder oedran, rhywedd (heb gynnwys pobl anneuaidd) ac ethnigrwydd* ar gyfer trigolion Cymru sydd wedi cael diagnosis HIV newydd yn y DU, 2021-2025

Diagnosisau HIV Newydd	2021	2022	2023	2024	2025
Pawb	66	105	95	79	82
Gwryw (yn cynnwys dynion trawsryweddol)	47(71%)	75(71%)	66(69%)	62(78%)	53(65%)
Benyw (yn cynnwys menywod trawsryweddol)	19(29%)	29(28%)	29(31%)	17(22%)	28(34%)
0-14	0	<5	0	<5	<5
15-24	<10	7	<10	<5	<10
25-34	16	21	32	21	22
35-49	26	50	40	33	28
50-64	14	22	13	13	13
65+	<5	<5	<5	10	13
Gwyn	31	55	32	44	41
Du Affricanaidd	5	23	16	15	19
Anhysbys	21	23	41	17	17

Ffynhonnell: ICC ac UKHSA, 2025

*Dilëwyd data ethnigrwydd Du Caribïaidd, cymysg a grwpiau ethnig eraill oherwydd niferoedd isel iawn

Yn 2025, roedd proffil grŵp oedran yr achosion newydd o heintio â HIV yn wahanol rhwng gwrywod a benywod (Ffigur 4), ac roedd y gyfran uchaf o achosion o'r menywod a gafodd ddiagnosis ymhlith y rhai 55+ oed a 25-34 oed.



Ffynhonnell: ICCu ac UKHSA, 2026

Ffigur 4: Dosbarthiad oedran-rhywedd o'r diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, 2025

Dangosir nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth o ddiagnosisau HIV newydd yn ôl rhywedd yn Nhabl 6.

Tabl 6: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth (n(cyfradd)) o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl rhywedd a blwyddyn 2021-2025

Rhywedd	2021	2022	2023	2024	2025
Cyfanswm	66 (2.1)	105 (3.4)	95 (3.0)	79 (2.5)	82 (2.6)
Gwryw (yn cynnwys dynion trawsryweddol)	47 (3.1)	75 (4.9)	66 (4.3)	62 (4.0)	53 (3.4)
Benyw (yn cynnwys menywod trawsryweddol)	19 (1.2)	29 (1.8)	29 (1.8)	17 (1.0)	28 (1.7)

Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2025

Yn 2025, dim ond ymhlith y grŵp oedran 35–49 oed y gwelwyd gostyngiad yn y gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth. Roedd pob grŵp oedran arall yn dangos cynnydd o'r flwyddyn flaenorol neu'r un gyfradd yn cael ei chynnal o'r flwyddyn flaenorol. Roedd y cynnydd mwyaf yn y gyfradd ymhlith y grwpiau oedran 15-24 a 65+ oed. Roedd nifer yr achosion newydd o ddiagnosis HIV dros 65 oed yr uchaf ers 2021 (Tabl 7).

Tabl 7: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl grŵp oedran a blwyddyn 2021-2025

Grŵp Oedran	2021	2022	2023	2024	2025
0-14	0 (0.0)	<5 (0.4)	0 (0.0)	0 (0.0)	<5 (0.2)
15-24	<10 (1.9)	7 (1.9)	<10 (2.4)	<5 (0.5)	<10 (1.4)
25-34	16 (4.2)	21 (5.4)	32 (8.1)	21 (5.3)	22 (5.6)
35-49	26 (4.8)	50 (9.1)	40 (7.1)	33 (5.8)	28 (4.9)
50-64	14 (2.2)	22 (3.4)	13 (2.0)	13 (2.0)	13 (2.0)
65+	<5 (0.5)	<5 (0.4)	<5 (0.1)	10 (1.4)	13 (1.8)
Cyfanswm	66 (2.1)	105 (3.4)	95 (3.0)	79 (2.5)	82 (2.6)

Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2026

4.2.2 Ethnigrwydd a gwlad/rhanbarth genedigol

Mae nifer y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru yn parhau i fod yr uchaf yn gyson ymhlith y rhai o ethnigrwydd Gwyn, yn unol â phroffil ethnigrwydd Cymru.[11] (gweler Tabl 8 a Ffigur 5). Fodd bynnag, mae'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth o achosion newydd o HIV yn parhau i fod ar ei huchaf ymhlith y rhai o ethnigrwydd Du-Affricanaidd ac mae wedi bod yn cynyddu ers 2023, yn dilyn cynnydd mawr yn 2022. Gostyngodd cyfran y data anghyflawn neu ddata coll ar gyfer ethnigrwydd yn sydyn yn 2024, ar ôl iddo ddod yn orfodol i'w gwblhau ar yr e-ffurflen HIV.


Tabl 8: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl grŵp ethnigrwydd* a blwyddyn 2021-2025

Grŵp Ethnigrwydd	2021	2022	2023	2024	2025
Gwyn	31 (1.1)	55 (1.9)	32 (1.1)	44 (1.5)	41 (1.4)
Du Affricanaidd	<10 (25.1)	23 (115.5)	16 (80.4)	15 (75.4)	19 (95.5)
Asiaidd	<5 (3.4)	<5 (0.0)	<5 (2.2)	<5 (2.2)	<5 (1.1)
Cymysg - Arall	6 (7.3)	<5 (2.7)	<5 (5.3)	<5 (1.3)	<5 (5.3)
Cyfanswm	66 (2.1)	105 (3.4)	95 (3.0)	79 (2.5)	82 (2.6)

*Mae data Du Caribïaidd a Du arall wedi'u dileu oherwydd ffigurau isel

Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2026

[11] Dangosodd data cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 fod 93.8% o ethnigrwydd Gwyn yng Nghymru: Grŵp ethnig, Cymru a Lloegr - Swyddfa Ystadegau Gwladol



Ffynhonnell: ICC ac UKHSA, 2026

Ffigur 5: Cyfran y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl grŵp ethnigrwydd* a blwyddyn 2021-2025


Yn 2025, roedd diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru ar eu huchaf ymhlith y rhai a aned yn y DU, ac yna'r rhai a aned yn Affrica, sef tuedd gyson ers 2022 (Tabl 9). Mae cyfran yr unigolion â gwlad enedigol anhysbys ar ei hisaf ers 5 mlynedd oherwydd ansawdd data gwell drwy'r e-ffurflen HIV.

Tabl 9: Nifer y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl rhanbarth geni* a blwyddyn

Rhanbarth Genedigol	2021	2022	2023	2024	2025
DU	29	44	34	43	54
Ewrop	<5	6	<5	<5	<5
Affrica	<5	17	18	17	20
Asia	<5	<5	6	<5	<5
Arall	0	<5	<5	0	0
Anhysbys	26	36	31	15	<5

Ffynhonnell: ICC ac UKHSA, 2026

Gellir gweld gwlad enedigol achosion newydd o HIV yn ôl cyfran yn Ffigur 6. Yma mae cyfran y rhai a aned yn y DU yn cynyddu, ynghyd â chynnydd bach a welwyd yn y rhai a aned yn Affrica ac Asia. Mae'r achosion lle bo'r wlad enedigol yn anhysbys wedi gostwng yn sylweddol oherwydd gwell ansawdd data drwy'r e-ffurflen HIV.



Ffynhonnell: ICC ac UKHSA, 2026

Ffigur 6: Cyfran y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl rhanbarth genedigol a blwyddyn

4.2.3 Bwrdd iechyd preswyl


Mae cyfradd y diagnosisau HIV newydd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn amrywio yn ôl bwrdd iechyd preswyl ledled Cymru (Tabl 10); fodd bynnag, mae'r cyfraddau'n gyson uchaf ymhlith y rhai sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Tabl 10: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth (n(cyfradd)) o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl bwrdd iechyd preswyl a blwyddyn 2021-2025

Presenoldeb mewn Clinigau Bwrdd Iechyd	2021	2022	2023	2024	2025
Aneurin Bevan	13 (2.2)	13 (2.2)	17 (2.8)	18 (3)	19 (3.2)
Betsi Cadwaladr	9 (1.3)	24 (3.5)	13 (1.9)	14 (2)	12 (1.7)
Caerdydd a'r Fro	21 (4.3)	34 (6.8)	38 (7.4)	21 (4.1)	21 (4.1)
Cwm Taf Morgannwg	<10 (1.1)	13 (2.9)	10 (2.2)	8 (1.8)	14 (3.1)
Hywel Dda	9 (2.4)	12 (3.1)	<10 (1.8)	8 (2.1)	<10 (1.5)
Powys	<5 (0.7)	<5 (2.2)	<5 (0.7)	0 (0.0)	<5 (0.7)
Bae Abertawe	8 (2.1)	<10 (1.6)	8 (2.0)	10 (2.5)	9 (2.3)
Cyfanswm	66 (2.1)	105 (3.4)	95 (3.0)	79 (2.5)	82 (2.6)

Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2025

Yn yr awdurdod lleol preswyl (Ffigur 7), cofnodwyd y cyfraddau HIV newydd uchaf fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ardaloedd awdurdodau lleol Caerdydd a Chasnewydd gan ddefnyddio data cyfunol 2021-2025. D.S. Mae cyfraddau'r lleoliadau'n seiliedig ar god post preswyl unigolion ac nid ydynt yn adlewyrchu safle'r diagnosis.



Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2026

Ffigur 7: Cyfradd diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd cyfunol 2021-2025

4.2.4 Ffynhonnell fwyaf tebygol amlygiad a adroddir gan y claf

Yn hanesyddol, rhyw rhwng dynion sydd wedi cael ei adrodd amlaf fel y llwybr amlygiad tebygol. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rhyw rhwng dynion a menywod yw'r llwybr trosglwyddo yr hunan-adroddwyd arno amlaf (gweler Tabl 11). Mae hyn yn gyson â'r cynnydd mewn achosion newydd o HIV ymhlith menywod ac, yn 2025, mae cyfran y gwrywod sy'n nodi rhyw rhwng dynion a menywod fel amlygiad tebygol hefyd ar ei huchaf mewn 5 mlynedd (59%).

Tabl 11: Nifer y diagnosisau HIV newydd yn y DU ymhlith trigolion yng Nghymru, yn ôl llwybr amlygiad a hunan-adroddwyd* a blwyddyn 2021-2025

Categori amlygiad tebygol*	2021	2022	2023	2024	2025
Rhyw rhwng dynion	21	33	34	26	24
Rhyw rhwng dynion a menywod	21	38	31	30	32

Ffynhonnell: ICC ac UKHSA, 2026

* Nid yw pob diagnosis yn cynnwys amlygiad tebygol a hunan-adroddwyd ac eithriwyd amlygiadau anrhywiol a oedd yn cynnwys defnyddio cyffuriau trwy chwistrellu oherwydd ffigurau isel iawn

4.3 Diagnosisau hwyr o achosion newydd o HIV

Mae diagnosisau hwyr [12]yn awgrymu y gallai fod cyfleoedd ar gyfer profi wedi eu colli ac mae ganddynt oblygiadau o ran canlyniadau iechyd. Yn seiliedig ar ddata clinigau iechyd rhywiol a ddarparwyd yn uniongyrchol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddiagnosisau HIV newydd yng Nghymru yn 2025, darparwyd cyfrif CD4 o fewn 91 diwrnod i'r diagnosis ar

Diffinnir hyn fel cael cyfrif CD4 o dan 350 o gelloedd fesul milimetr ciwbig o fewn 91 diwrnod ar ôl y diagnosis cyntaf o HIV yn y DU a dim tystiolaeth o serodrawsnewid diweddar.

gyfer 82.9% o ddiagnosisau newydd, ac o'r rhain nodwyd 61.8% fel diagnosisau hwyr (gweler Tabl 12). Cynyddodd nifer y diagnosisau hwyr yn 2025 o'i gymharu â 2024 ac mae'n uwch na'r cyfnod pum mlynedd.

Tabl 12: Nifer a chyfran (%) y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru gyda chyfrif CD4 wedi'i adrodd o fewn 91 diwrnod a diagnosisau hwyr yng Nghymru pan adroddwyd am gyfrif CD4, yn ôl blwyddyn 2021-2025

	2021	2022	2023	2024	2025
Cyfrif CD4 wedi'i gofnodi	41 (62.1%)	93 (88.6%)	81 (85.3%)	67 (84.8%)	68 (82.9%)
Diagnosis hwyr wedi'i gofnodi	17 (41.5%)	38 (40.9%)	31 (38.3%)	35 (52.2%)	42 (61.8%)

Ffynhonnell: ICC, 2025

Nodiadau: Mae'r data a ddarperir yma yn seiliedig ar gyswllt uniongyrchol â chlinigwyr yng Nghymru ac efallai na fyddant yn cyd-fynd yn llawn â data a gyhoeddwyd gan UKHSA fel ystadegau swyddogol.

4.4 Pob diagnosis HIV – cymhariaeth ar lefel gwlad

Roedd cyfanswm pob diagnosis HIV yng Nghymru yn 2025 yn 115. Roedd hwn yn cynnwys 82 o ddiagnosisau HIV newydd a 33 o bobl a gafodd ddiagnosis HIV cyn cael gofal parhaus yng Nghymru.

Mae cyfradd pob diagnosis HIV yn y DU yn 2025, sy'n cynnwys y rhai a gafodd ddiagnosis o HIV cyn cael gofal parhaus yn y DU, yn amrywio yn ôl gwlad. Mae'r cyfraddau yng Nghymru yn fwy tebyg i'r Alban nag i Loegr (Tabl 13 a Ffigur 8).


Ar gyfer 2025, gostyngodd y gyfradd yng Nghymru i 3.6 o 4.3 fesul 100,000 yn 2024. Nid yw Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno data ers 2022. Lle bo data ar gael, mae cyfraddau pob diagnosis HIV yn ôl gwlad wedi gostwng ers 2023. Mae'n debyg bod tueddiadau mewn mudo yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi effeithio ar bob cyfradd ddigwydded HIV yn y DU.

Tabl 13: Pob diagnosis HIV newydd a adroddwyd yn y DU a'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl gwlad a blwyddyn

	2021		2022		2023		2024		2025	
Gwlad/Rhanbarth	Pob Diagnosis HIV	Cyfradd pob Diagnosis HIV fesul 100,000	Pob Diagnosis HIV	Cyfradd pob Diagnosis HIV fesul 100,000	Pob Diagnosis HIV	Cyfradd pob Diagnosis HIV fesul 100,000	Pob Diagnosis HIV	Cyfradd pob Diagnosis HIV fesul 100,000	Pob Diagnosis HIV	Cyfradd pob Diagnosis HIV fesul 100,000
Lloegr	3,232	5.7	4,174	7.3	6,241	10.8	5,464	9.3	4,101	7.0
Gogledd Iwerddon	75	3.9	98	5.1	-		-		-	
Yr Alban	149	2.8	181	3.3	218	4.0	254	4.6	223	4.0
Cymru	75	2.4	116	3.7	130	4.1	138	4.3	115	3.6
Cyfanswm	3,531	5.3	4,569	6.8	6,589	9.6	5,856	8.5	4,439	6.6

Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2026

Nodiadau: Caiff data ledled y DU eu prosesu'n flynyddol am gyfnod o 10 mlynedd. Gall hyn arwain at newidiadau bach mewn niferoedd a chyfraddau ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Ni ddylid cymharu data yn yr adroddiad hwn ag adroddiadau blaenorol.



Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2026

Ffigur 8: Cyfradd pob diagnosis HIV fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl gwlad yn y DU a blwyddyn 2021-2025

4.5 HIV ymhlith Menywod Beichiog

Yn 2025, rhoddodd 11 o famau a oedd yn HIV positif, a phob un wedi cael diagnosis mewn blynyddoedd blaenorol, enedigaeth yng Nghymru. O'r 11 o fabanod a gafodd eu geni, nid oedd tystiolaeth o haint HIV ar 9 ohonynt, ac roedd y gweddill yn aros am ganlyniadau. Mae gwaith datblygu pellach o oruchwyliaeth HIV cynhenid yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yng Nghymru.

5 Triniaeth a Gofal

O 2024 ymlaen, diffinnir y rhai sy'n derbyn gofal HIV yng Nghymru fel: unigolion sy'n cael prawf llwyth feirysol o fewn cyfnod 14 mis, (e.e. 01/12/2023-31/01/2025 ar gyfer 2024). Mae'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n byw gyda HIV a welwyd rhwng 2023 a 2024 yn bennaf oherwydd ein bod wedi gwaredu'r unigolion a oedd heb ddynodwyr ac a gofnodwyd mewn categorïau demograffig 'Anhysbys', a adroddwyd yn flaenorol trwy'r dull adrodd â llaw a ddefnyddiwyd cyn 2024.

5.1 Pobl sy'n byw gyda HIV – cymhariaeth lefel gwlad

Mae cyfanswm y nifer o unigolion sy'n byw yng Nghymru ac sy'n cael triniaeth a gofal HIV wedi cynyddu ychydig o 2,461 yn 2021, i 2,538 yn 2025, gan arwain at gyfradd gymharol sefydlog fesul 100,000 o'r boblogaeth (gweler Tabl 14).

Roedd nifer yr unigolion sy'n byw gyda HIV yng Nghymru fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 79.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2025, sy'n parhau i fod yn is nag yn Lloegr a'r Alban (180.4 a 104.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn y drefn honno).

Tabl 14: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n byw gyda HIV yn y DU, yn ôl gwlad a blwyddyn, 2021-2025

	2021		2022		2023		2024		2025	
Gwlad	Nifer o Unigolion sy'n Byw gyda HIV	Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth	Nifer o Unigolion sy'n Byw gyda HIV	Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth	Nifer o Unigolion sy'n Byw gyda HIV	Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth	Nifer o Unigolion sy'n Byw gyda HIV	Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth	Nifer o Unigolion sy'n Byw gyda HIV	Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth
Lloegr	91,409	161.6	94,418	165.1	99,667	171.9	104,033	177.5	106,115	180.4
Gogledd Iwerddon	1,291	67.8	1,312	68.7	-		-		-	
Yr Alban	5,125	94.7	5,313	97.5	5,314	96.4	5,525	99.7	5,781	104.2
Cymru	2,461	79.2	2,535	80.9	2,764	87.3	2,520	79.3	2,538	79.9
Cyfanswm	100,286	149.7	103,578	153	107,745	157.1	112,078	161.8	114,434	169.4

Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2025

Nodiadau: Caiff data ledled y DU eu prosesu'n flynyddol am gyfnod o 10 mlynedd. Gall hyn arwain at newidiadau bach mewn niferoedd a chyfraddau ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Ni ddylid cymharu data yn yr adroddiad hwn ag adroddiadau blaenorol.

5.2 Pobl sy'n byw gyda HIV - yn ôl demograffeg

Gwelwyd cynnydd bach yn nifer yr unigolion sy'n byw gyda HIV rhwng 2024 a 2025 (Tabl 15). Roedd mwyafrif yr unigolion a oedd yn cael triniaeth a gofal HIV yng Nghymru yn wrywod (73.1%); rhwng 50 a 64 oed (38.4%); ac o ethnigrwydd Gwyn (64.3%, Tabl 15).

Tabl 15: Proffil demograffig y rhai sy'n byw gyda HIV ac sy'n cael triniaeth a gofal yng Nghymru, yn ôl blwyddyn, 2021-2025

	2021	2022	2023	2024	2025
Cyfanswm	2,461	2,535	2,764	2,520	2,538
Benyw	563	598	642	651	680
Gwryw	1,845	1886	1,955	1,865	1,856
0-14	0	<5	<10	<10	<10
15-24	36	<35	<35	<35	<40
25-34	296	272	287	260	249
35-49	953	958	1,038	983	948
50-64	945	1,008	1,086	951	975
65+	231	260	315	288	323
Gwyn	1,831	1,852	1,883	1,670	1,632
Du Affricanaidd	330	347	363	404	423
Du Caribïaidd	10	<10	12	16	19
Du Arall	42	41	43	35	35
Asiaidd	73	77	68	69	72
Arall neu gymysg	59	71	71	68	68

Ffynhonnell: ICC ac UKHSA, 2026

Mae'r cyfradd uchaf o unigolion sydd yn derbyn gofal HIV yng Nghymru yn gyson yn gael ei adrodd ymhlith pobl sydd yn breswyl yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Tabl 16).

Tabl 16: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o bobloledd (n(gyfradd)) o bobl sy'n byw gyda HIV yn ôl bwrdd iechyd preswyl a blwyddyn, 2021-2025

Bwrdd iechyd preswyl	2021	2022	2023	2024	2025
Aneurin Bevan	441 **(75.0)**	450 **(76.0)**	439 **(73.5)**	347 **(57.8)**	407 **(67.7)**
Betsi Cadwaladr	440 **(64.0)**	457 **(66.3)**	485 **(69.9)**	481 **(69.1)**	495 **(71.2)**
Caerdydd a'r Fro	700 **(142.2)**	707 **(140.5)**	868 **(168.8)**	724 **(139.9)**	742 **(143.6)**
Cwm Taf Morgannwg	279 **(63.1)**	287 **(64.6)**	288 **(64.4)**	302 **(67.5)**	272 **(60.9)**
Hywel Dda	200 **(52.3)**	223 **(57.8)**	248 **(63.9)**	244 **(62.8)**	230 **(59.2)**
Powys	58 **(43.4)**	63 **(47.1)**	60 **(44.6)**	67 **(49.7)**	61 **(45.2)**
Bae Abertawe	343 **(90.3)**	348 **(90.4)**	376 **(96.3)**	333 **(84.7)**	331 **(84.6)**

Ffynhonnell: ICC ac UKHSA, 2025

Nodyn: Roedd bwrdd iechyd preswyl yn anhysbys ar gyfer 22 unigolyn yn 2024, ac maent wedi eu heithrio o'r tabl.

5.3 Triniaeth HIV a llwyth feirysol

Defnyddir therapi gwrth-retrofeirysol (ART) i drin HIV. Mae hefyd yn lleihau'r llwyth feirysol (VL) at bwynt lle nad yw bellach yn bosib trosglwyddo'r haint i eraill.

Mae nifer yr unigolion yr adroddir eu bod yn cael triniaeth yn gysylltiedig â nifer yr unigolion sy'n cael gofal ac mae'r targed o 95% o 'O leiaf 95% o bobl sy'n gwybod eu statws HIV yn cael triniaeth' a osodwyd gan UNAIDS, wedi'i gyrraedd am y 5 mlynedd diwethaf (Tabl 16).

Yn 2025, cynyddodd cyfran y rhai a oedd ar driniaeth â VL i 99%, a chyrhaeddodd darged UNAIDS am y tro cyntaf. O'r rhai oedd â VL, mae'r gyfran â VL anghanfyddadwy yn parhau i fod uwchlaw targed UNAIDS o 95%.

Table 17: Nifer a chyfran (%) yr unigolion sy'n cael ART, yn nodi llwyth feirysol ac sydd â llwyth feirysol anghanfyddadwy, yn ôl blwyddyn 2021-2025

Blwyddyn	2021	2022	2023	2024	2025
Yn cael ART	2,450	2,515	2,720	2,487	2,522
%	100	99	98	99	99
Unigolion sydd â VL	1,628	1,632	2,335	2,349	2,491
%	66	65	86	94	99
% sydd â VL anghanfyddadwy (<200 copi fesul ml)	98	98	98	99	97

Ffynhonnell: ICC ac UKHSA, 2026

Nodiadau: Mae nifer a chyfran yr unigolion â VL yn is-set o'r rhai sy'n cael ART ac nid yn gynrychiolaeth lawn o'r rhai a ystyrir eu bod mewn gofal.

6 Marwolaethau

Yn 2025, roedd 49 o farwolaethau ymhlith pobl a oedd yn byw gyda HIV (Tabl 17)[13]. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r marwolaethau ymhlith y rhai dros 65 oed (57.1%). Bu farw cyfanswm o 19 o unigolion (%) o fewn 5 mlynedd o gael eu diagnosis HIV. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud i ddangos tystiolaeth o dueddiadau mewn achosion sylfaenol marwolaethau dros amser a chyfraniad haint HIV at farwolaethau.

Table 18: Nifer y marwolaethau a gofnodwyd ymhlith y rhai a oedd yn byw gyda HIV yng Nghymru, yn ôl blwyddyn, 2021-2025

Blwyddyn	2021	2022	2023	2024	2025
Nifer y marwolaethau	22	10	32	21	49

Ffynhonnell: ICC ac UKHSA

Nodiadau: Gall oedi wrth adrodd arwain at newidiadau yn nifer y marwolaethau a adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Ni ddylid cymharu data yn yr adroddiad hwn ag adroddiadau blaenorol.

Mae nifer o ddiagnosisau HIV newydd a gofnodwyd ar adeg marwolaeth wedi arwain at gynnydd yn y diagnosisau HIV newydd a'r ffigurau marwolaeth yn 2025.
Yn 2025, o'r 49 o farwolaethau a gofnodwyd:

- Cafodd 33 eu hadnabod drwy'r ONS
- Adroddwyd ar 15 drwy'r Adolygiad Cenedlaethol o Farwolaethau HIV (NHMR), ac o'r rhain
    - Adroddwyd am 12 gan ymddiriedolaethau Cymru
    - Adroddwyd ar 3 gan ymddiriedolaethau yn Lloegr a'u paru â diagnosis cychwynnol yng Nghymru
- Adroddwyd am 1 drwy HARS o glinig yn Lloegr ynghylch preswylydd o Gymru

Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ymchwilio i dueddiadau yn achos sylfaenol marwolaethau a chyfraniad haint HIV tuag atynt.

[13] Mae marwolaethau ymhlith pobl ag HIV yn cael eu nodi trwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) trwy gymharu nifer yr unigolion HIV positif mewn data labordai Cymru sydd gan y GIG â nifer y rhai a gofnodwyd yn farw gan y GIG drwy ONS. Mae marwolaethau ychwanegol, a nodwyd trwy'r cyflwyniadau o'r Adolygiad Cenedlaethol o Farwolaethau HIV (NHMR), ac unrhyw rai a adroddwyd gan glinigau yn Lloegr sy'n ymwneud â phreswylwyr o Gymru, wedi'u hatodi. Defnyddir dynodwyr unigryw i baru pob hysbysiad marwolaeth â dyddiad diagnosis cychwynnol, fel arfer o flwyddyn flaenorol. Lle nad oes modd eu paru, ystyrir bod unigolion wedi cael diagnosis HIV newydd ar ôl marwolaeth

7 Ffynonellau data

Mae'r data yn yr adroddiad hwn wedi'u tynnu o sawl ffynhonnell, gan gynnwys:

- System Rheoli Gwybodaeth Labordy GIG Cymru (LIMS)
- Cynllun HIV Cymru Gyfan Newydd: Data diagnosis yr e-ffurflen
- Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru (SWS)
- Gwasanaeth Profi a Phostio (T&P) / Labordy'r Meddygon (TDL)

Mae data gan LIMS a ffurflenni e-wyliadwriaeth HIV yn cael eu cyfuno a'u cyflwyno i Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) drwy'r ffurflen Adrodd HIV Clinigol (CHR), lle cânt eu cyfuno â data ledled y DU. Caiff data eu prosesu a'u dychwelyd fel set ddata wedi'i dadgyfuno ar gyfer Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n byw yng Nghymru ond sydd wedi cael diagnosis ac sydd wedi'u gweld i gael gofal mewn gwledydd eraill y DU.

Lle bo angen, cafwyd data poblogaeth o [14]amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2025 StatsCymru, sy'n seiliedig ar ffigurau SYG.

Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS)

Mae'r System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) yn system wybodaeth gyfrifiadurol y mae staff labordai yn ei defnyddio i gofnodi ceisiadau am brofion patholeg gan wardiau, theatrau, adrannau damweiniau ac achosion brys a chlinigau. Mae samplau'n cael eu bwydo trwy ddadansoddwyr patholeg sydd wedi'u cysylltu â'r LIMS ac sy'n trosglwyddo'r mesuriadau a'r data am y canlyniadau i LIMS trwy ryngwynebau pwrpasol. Yna caiff canlyniadau'r profion eu cysylltu ag enw'r claf gan LIMS yn barod i'w defnyddio gan y clinigwyr a'u tîm.

Mae ffynhonnell ddata LIMS yn cynnwys yr holl brofion HIV Ag/Ab a gynhaliwyd yn labordai GIG Cymru ac felly mae'n darparu gwybodaeth am yr holl boblogaethau a brofwyd yng Nghymru (gweler T&P/TDL ar dudalen 25). Yn ogystal, mae unigolion sy'n derbyn gofal HIV yng Nghymru yn cael eu hadnabod gan ddefnyddio presenoldeb prawf llwyth feirysol HIV a gynhelir o fewn cyfnod o 14 mis.

Cynllun HIV Cymru Gyfan Newydd: E-ffurflen ddiagnosis

Mae e-ffurflen Diagnosis HIV Newydd yn cael ei chwblhau gan glinigwyr yng Nghymru ar gyfer pob achos newydd o HIV. Mae'r wybodaeth a gesglir yn galluogi dadansoddi tueddiadau epidemiolegol ac mae'n cynnwys: data canlyniadau profion a diagnostig; manylion demograffig; a statws triniaeth. Cyflwynwyd y broses hon yn 2024, sef y broses genedlaethol newydd ar gyfer gwyliadwriaeth HIV yng Nghymru.

Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru (SWS)

Mae'r Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru (SWS) a gyflwynwyd yn 2011, yn coladu gwybodaeth o'r systemau rheoli cleifion electronig a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn clinigau iechyd rhywiol yng Nghymru. Mae SWS yn darparu set ddata Cymru gyfan sy'n cynnwys unigolion sy'n derbyn presgripsiynau ar gyfer Proffylacsis Cyn-gysylltiad (PrEP) trwy wasanaethau iechyd rhywiol ynghyd â rhai manylion demograffeg allweddol ar gyfer yr unigolion hynny megis rhyw, oedran, ethnigrwydd, ac awdurdod preswyl lleol.

[14]StatsCymru

Y gwasanaeth Profi a Phostio / The Doctors Lab (TDL)

Sefydlwyd rhaglen sgrinio Profi a Phostio Cymru yn 2020 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn cydweithrediad â'r llywodraeth a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau), fel gwasanaeth profi hunan-sgrinio drwy'r post ar gyfer feirysau a drosglwyddir yn rhywiol a Feirysau a Gludir yn y Gwaed (BBVs). Gofynnir am becynnau hunansgrinio ar-lein neu o leoliadau cymunedol a chânt eu cwblhau gan unigolion. Mae'r samplau canlyniadol yn cael eu prosesu gan labordy preifat, The Doctors Lab (TDL), ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn LIMS. Anfonir canlyniadau at unigolion drwy neges destun gyda chyfeiriadau at wasanaethau triniaeth glinigol yn ôl yr angen. Mae profion Profi a Phostio negyddol yn cael eu cofnodi ynghyd â phrofion SWS yn adran 3 o'r adroddiad hwn. Dylai unigolion sy'n cael canlyniad positif trwy'r gwasanaeth Profi a Phostio gael eu gweld trwy glinigau iechyd rhywiol a chofnodir eu canlyniadau trwy SWS.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn darparu amcangyfrifon o'r boblogaeth ar ganol y flwyddyn ar lefel genedlaethol ac is-genedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig a'i gwledydd cyfansoddol yn ôl ardal weinyddol, oedran a rhyw (gan gynnwys elfennau o newid yn y boblogaeth, oedran canolrifol a dwysedd poblogaeth). Mae ystadegau poblogaeth ar gyfer rhywedd, oedran a lleoliad preswyl yn seiliedig ar ffigurau canol blwyddyn 2025[15]. Mae amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Ethnigrwydd yn seiliedig ar gyfrifiad 2021 y SYG[16]

[15] Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol. Amcangyfrifon poblogaeth canol-2025. Amcangyfrifon poblogaeth canol-flwyddyn ONS
[16] Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol. Cynhaeaf 2021 - Ethnigrwydd, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd yn y DU a phoblogaeth a anwyd y tu allan i'r DU: 2021. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity